Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Casnewydd**
**19 Sovereign Arcade, Canolfan Kingsway, Casnewydd, NP20 1EB**

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau y gwnaed penderfyniad, yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, i fwrw ymlaen â'r bwriad i symud y Swyddfa Bost uchod i'r siop wag yn 174-176 Stryd Doc Uchaf, Casnewydd, NP20 1DY lle caiff ei rhedeg gan ein partner manwerth newydd.

Mae'r newid yn cael ei wneud fel rhan o'r trefniadau parhaus i foderneiddio ein rhwydwaith er mwyn cael cynaladwyedd masnachol. Bydd hefyd yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau a fydd yn ateb gofynion cwsmeriaid ac yn diogelu gwasanaeth yng Nghasnewydd, yn awr ac yn yr hirdymor.

**Ymateb o'r ymgynghoriad cyhoeddus:**
Yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol, cawsom 32 o ymatebion unigol gan gwsmeriaid. Cynhaliwyd fforwm i gwsmeriaid er mwyn siarad am ein cynlluniau ac ateb cwestiynau. Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth inni.

Roedd y prif adborth yn ymwneud â lleoliad yr adeilad newydd ac yn cwestiynu'r ddarpariaeth o breifatrwydd a diogelwch yn gyffredinol yn y gangen a'r cyffiniau. Cawson adborth hefyd yn dweud y byddai'r gangen newydd yn fwy hygyrch, â mwy o le ac yn nes at y prif lwybrau trafnidiaeth. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid yn well a chafodd ei hystyried, ynghyd â'r holl ffactorau eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad.

**Cyrraedd y lleoliad newydd:**
Gydag unrhyw symud, mae'n anorfod y bydd yn haws i rai cwsmeriaid gyrraedd y lleoliad newydd; yn anffodus, bydd eraill yn gorfod teithio ymhellach. Rhoesom ystyriaeth ofalus i ffactorau fel natur y tir, parcio a thrafnidiaeth wrth ddatblygu ein cynllun. Hefyd, buom yn ystyried a oedd unrhyw broblemau trafnidiaeth a allai ei gwneud yn anodd teithio i'r safle newydd arfaethedig.

Mae'r gangen newydd tua 305 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur. I'r sawl sy'n dewis gyrru, mae yna faes parcio a thâl yng Nghanolfan Siopa Rhodfa'r Brodyr â lle i 350 o gerbydau, a 16 ar gyfer pobl anabl. Mae tua 165 metr rhwng y maes parcio a'r gangen newydd. Mae pedwar lle parcio penodol arall i bobl anabl yn Stryd Doc Uchaf, gyferbyn â'r adeilad newydd.

Mae bysiau ar gael i fynd yn ôl ac ymlaen i'r cyffiniau ac mae'r arhosfan bysiau agosaf tua 100 metr i ffwrdd.

Yn ogystal, mae Shopmobility Newport yn cynnig gwasanaeth o amgylch canol y dref i bobl sy'n ei chael hi'n anodd i symud o gwmpas, gan gynnwys hurio cadeiriau olwyn a sgwteri am y dydd. Rhaid archebu'r gwasanaeth hwn ymlaen llaw. Y cyfeiriad yw 193 Stryd Doc Uchaf, Casnewydd, NP20 1DB. I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys y tâl sy'n cael ei godi a sut i gofrestru, ffoniwch 01633 673845.

Wrth gloi, gallaf ddweud fy mod yn dal yn fodlon bydd y bydd yn hawdd o hyd i gwsmeriaid yng Nghasnewydd gyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

**Golwg ar y gangen newydd:**
Gwyddom fod Swyddfa'r Post yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, gan gynnwys ein cwsmeriaid oedrannus ac anabl. Mae ein partner manwerth newydd o'r farn fod rhwydwaith Swyddfa'r Post yn rhan hollbwysig o wasanaethau cymunedol a bydd yn adnewyddu'r adeilad gwag ac yn gosod Swyddfa Bost fodern ochr yn ochr â'i siop gyfleustra. Byddwn yn cydweithio i ddarparu Swyddfa Bost fodern, newydd â digon o le i gwsmeriaid y Swyddfa Bost a'r siop.

Bydd gan y gangen ei lle ei hun tua chefn y siop, ar y llaw chwith, a bydd y mynediad i gwsmeriaid i mewn i'r siop a'r tu mewn iddi yn bodloni safonau hygyrchedd Swyddfa'r Post Cyf a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd y llawr i mewn i'r adeilad yn wastad, a bydd drysau awtomatig yn cael eu gosod wrth y fynedfa. Y tu allan, y tu flaen i'r siop, bydd yna arwyddion Swyddfa'r Post ynghyd â bwrdd â rhestr o'r oriau agor.

Gosodir arwyddion i ddangos y ffordd i gwsmeriaid o'r fynedfa, drwy'r siop ac i mewn i'r Swyddfa Bost ar y llawr isaf. I wneud yn siŵr fod digon o le i gwsmeriaid y Swyddfa Bost, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn, symud o gwmpas y siop a chyrraedd y Swyddfa Bost heb anhawster, bydd y fynedfa a'r llwybrau siopa yn cael eu cadw'n rhydd rhag rhwystrau. Bydd cownter y Swyddfa Bost yn cael ei adeiladu yn unol â rhagofynion Swyddfa'r Post, gan gynnwys goleuadau sydd yn unol â safonau diwydiant, cownteri isel, padiau PIN a dolenni clyw. Bydd digon o le i bobl aros eu tro am wasanaeth, a bydd yna seddau i gwsmeriaid.

Bydd gan y gangen newydd saith man gwasanaeth, sydd yn seiliedig ar y galw ar hyn o bryd a'r hyn a ragwelir. Ceir pedwar man gwasanaeth â chynllun agored, dau â sgriniau a fydd yn cyrraedd y nenfwd a man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop. Mae mannau gwasanaeth â chynllun agored yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus ledled rhwydwaith Swyddfa'r Post fel dewis yn lle'r mannau gwasanaeth mwy traddodiadol. Mae yna sgrin barwydog o hyd, ond mae honno'n is er mwyn cynnig gwasanaeth mwy personol a sgwrsio cyfrinachgar pan fo angen.

Mae diogelwch unrhyw gangen newydd yn un o'r llu o bethau y byddwn yn eu hystyried cyn symud ymlaen at yr ymgynghori. Rydym yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i ddiogelwch ein cwsmeriaid a staff ac o'r herwydd rydym yn cymryd pob gofal posibl i wneud ein canghennau yn ddiogel a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu gwarchod.

Yn dilyn y symud, bydd cownteri'r brif Swyddfa Bost ar agor 09:00 - 17:30 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Yn ogystal, bydd y man gwasanaeth wrth dil y siop yn cynnig dewis dethol o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post dros oriau agor estynedig heb i gwsmeriaid orfod ymuno a'r prif giw. Bydd system linellog ar waith wrth i gwsmeriaid aros eu tro, a bydd cyhoeddiad yn Gymraeg a Saesneg i roi gwybod i gwsmeriaid at ba gownter y dylid mynd.

Mae cofeb ryfel yn Swyddfa Bost Casnewydd i goffau ein cydweithwyr a oedd yn gweithio i'r sefydliad pan oedd yn cael ei adnabod fel y Swyddfa Bost Gyffredinol (GPO), a oedd yn cynnwys y Post Brenhinol fel y mae heddiw. Rydym yn gweithio gyda'r Post Brenhinol i gael hyd i'r lle mwyaf addas i adleoli'r gofeb fel gall aelodau o'r cyhoedd ddal i ddangos parch i'n cydweithwyr a aberthodd eu bywydau. Rydym yn rhoi ein gair ein bod yn sylweddoli pa mor bwysig yw cofebion rhyfel ac, unwaith y down i gytundeb, caiff yr adleoliad ei wneud yn ofalus a theimladwy, gan gynnwys seremoni ailgysegru.

Felly, rwy'n fodlon y byddwn yn dal i ateb gofynion ein cwsmeriaid. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn dal i fonitro'r defnydd o'r gangen ar ôl y symud a byddwn yn cydweithio â'n partner manwerth i wneud yn siŵr fod safonau'r gwasanaeth yn cael eu cynnal.

**Cyrchu cynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post:**
Bydd yr un dewis eang o gwasanaethau Swyddfa'r Post, gan gynnwys prynu stampiau coffa ar gael o hyd yn y gangen newydd. Fodd bynnag, am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth Swyddfa'r Post Cyfyngedig, ni allwn ar hyn o bryd gadarnhau a fydd peiriant arian ar gael yn y gangen newydd ai peidio. Mae darparu peiriant arian yn amodol ar arolwg gan ein darparwr peiriannau arian, ystyriaethau gweithredol a chael caniatâd cynllunio perthnasol. Gall cwsmeriaid bancio personol a chwsmeriaid Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post ddal i godi arian am ddim wrth y prif gownter. Ar y llaw arall, mae gan Swyddfa Bost Commercial Road beiriant arian y tu allan, tua 0.5 milltir i ffwrdd yn 44-45 Commercial Road, Casnewydd, Gwent, NP20 2PE.

**Hyfforddiant gwasanaethu cwsmeriaid a'r staff sy'n bodoli:**
Mae ein partner manwerth newydd wedi'n bodloni eu bod yr un mor ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid ag yr ydym ni. Bydd unrhyw un a gyflogir i weithio yn Swyddfa Bost Casnewydd wedi derbyn hyfforddiant yn unol â safonau uchaf Swyddfa'r Post. Yr un fath â'r canghennau rydym yn eu rhedeg ein hunain, bydd y gangen yn derbyn hyfforddiant drwy'r amser ynglŷn â chynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal â materion cyffredinol sy'n ymwneud â rhedeg y gangen a'r gwasanaeth a gynigir ganddi. Bydd Swyddfa'r Post yn gweithio gyda'n partner newydd i gynnig cymorth, fel y gwnawn eisoes mewn canghennau Swyddfa'r Post sy'n cael eu rhedeg gennym ni neu bartneriaid manwerth eraill.

Ynglŷn a phobl sy'n gweithio yn y gangen bresennol, mae gennym enw da am gefnogi ein pobl yn ystod unrhyw newid. Fe wnawn bopeth posibl, o fewn y dewisiadau, i gael hyd i ateb a fydd yn dderbyniol i bob unigolyn.

**Casgliad:**
Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rwy'n ffyddiog y bydd y gangen newydd mewn lleoliad addas ac y bydd yn parhau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth rhagorol, ynghyd â helpu i wneud y gangen yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol a chadw Swyddfa Bost yng Nghasnewydd. Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ar 7 Tachwedd 2018, a bydd y gangen newydd yn agor am 09:00 ar 8 Tachwedd 2018.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk.

Yr eiddoch yn gywir



**Roger Gale**
**Cyfarwyddwr y Rhwydwaith a Gwerthiannau**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

Sut i gysylltu â ni:

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

| Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Casnewydd | |
|---|---|
| **Cyfeiriad** | 174-176 Stryd Doc Uchaf<br>Casnewydd<br>NP20 1DY |
| **Oriau agos** | Llun 09:00 – 17:30<br>Maw 09:00 – 17:30<br>Mer 09:00 – 17:30<br>Iau 09:00 – 17:30<br>Gwen 09:00 – 17:30<br>Sad 09:00 – 17:30<br>Sul Ar gau |
| **Oriau agor y Gwasanaeth Swyddfa Bost wrth gownter y siop** | Llun-Sad 06:00 – 21:00<br>Sul 10:00 – 16:00 |
| **Cynhyrchion a Gwasanaethau** | Bydd yr un dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd. Am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth Swyddfa'r Post Cyfyngedig, ni allwn ar hyn o bryd gadarnhau a fydd peiriant arian ar gael yn y gangen newydd ai peidio. Mae darparu peiriant arian yn amodol ar arolwg gan ein darparwr peiriannau arian a chael caniatâd cynllunio perthnasol. |
| **Mannau gwasanaeth** | Ceir saith man gwasanaeth, sef dau â sgrin, pedwar â chynllun agored, a man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop. Cafodd nifer y mannau gwasanaeth eu seilio ar faint o fusnes sydd ar hyn o bryd a faint a ragwelir yn y dyfodol. |
| **Mynediad a chyfleusterau** | Bydd y llawr i mewn i'r adeilad yn wastad, a bydd drysau awtomatig wrth y fynedfa. Bydd cownteri gwasanaeth isel, desg ysgrifennu isel a dolenni clyw a seddau i gwsmeriaid ar gael. |
| **Pa mor bell yw'r adeilad?** | Tua 305 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur. |
| **Trafnidiaeth a pharcio** | Mae maes parcio aml-lofftog lle codir tâl yng Nghanolfan Siopa Rhodfa'r Brodyr â lle i 350 o gerbydau a 16 lle ar gyfer pobl anabl. Mae'r pellter rhwng y maes parcio a'r adeilad arfaethedig tua 165 metr.<br><br>Mae pedwar lle parcio penodol i bobl anabl yn Stryd Doc Uchaf, gyferbyn â'r adeilad arfaethedig.<br><br>**Bysiau**<br>Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn ôl ac ymlaen i'r ardaloedd cyfagos. Mae bysiau'n aros tua 100 metr i ffwrdd o'r adeilad arfaethedig. |
| **Y Siop** | Hwylustod |
| **Dyddiad y symud** | 8 Tachwedd 2018 am 09:00 |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post**

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol

*Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau Agor
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

*Byddwn yn **Ymgysylltu** – pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:*

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol[2], y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[3], i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

*Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:*

- Cau cangen Swyddfa'r Post[4] yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd)

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[5] er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am

unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn iddi.
Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydych wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

**postofficeviews. co.uk.**
**comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen sydd ar gau dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

[2] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

[3] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 2 a 3 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

[4] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

[5] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.